

# PEIRIANNAU LLADD

**Mae cyrff rhai anifeiliaid wedi cael eu cynllunio i ladd.**

- Llygaid craff – i weld eu hysglyfaeth cyn i'r ysglyfaeth eu gweld nhw. Gall eryr weld 4 gwaith yn bellach na dyn a gall teigr weld 6 gwaith yn well na dyn yn y tywyllwch.
- Genau cryf – i'w helpu i gydio yn yr ysglyfaeth. Yr hyena sbotiog sydd â'r genau cryfaf. Gall gnoi trwy asgwrn.
- Dannedd miniog – gall y rhain dorri trwy groen a chnawd fel cyllell.
- Coesau cryf – i'w helpu i symud yn gyflym. Gall cheetah fynd o 0 i 50mya mewn 3 eiliad!
- Crafangau siarp – i ddal gafael ar eu hysglyfaeth.

## CATHOD MAWR

Mae'r mwyafrif o'r cathod mawr yn hela ar eu pen eu hun ond mae llewod yn hela mewn grwpiau ac yn rhannu eu hysglyfaeth.Y cathod mwyaf ydy teigrod sy'n gallu bod yn 4 metr o hyd a phwyso 350 cilogram. Dull y cheetah o ladd ydy gafael yn ei ysglyfaeth gyda'i grafangau a'i ladd trwy ei gnoi yn ei wddw.

## EIRTH

### Eirth Gwyn

Taldra: hyd at 2.6 metr pan fyddant yn sefyll
Pwysau: hyd at 410 cilogram
Gallant fwyta 45 cilogram o forlo mewn un pryd

### Eirth Brown

Taldra: hyd at 2 metr pan fyddant yn sefyll
Pwysau: hyd at 300 cilogram
Maent yn cylchu eu hysglyfaeth cyn neidio arno

## HELWYR MEWN PACIAU

Bydd hyenas, cŵn a bleiddiaid yn hela mewn paciau. Bydd hyenas yn bwyta pob mymryn o'u hysglyfaeth, hyd yn oed y dannedd a'r esgyrn tra bydd bleiddiaid yn bwyta'r darnau gorau yn gyntaf ac yn claddu'r gweddill yn yr eira neu'r rhew.



# PEIRIANNAU LLADD

**NADROEDD**
Mae rhai nadroedd yn lladd gyda gwenwyn ac eraill yn troelli o gwmpas eu hysglyfaeth. Maent yn llyncu eu hysglyfaeth yn gyfan. Gall python lyncu anifail fel gafr neu garw.

**PRYFAID COP (CORRYNNOD)**
Bydd tarantula yn hela ei ysglyfaeth a'i gnoi. Maent yn chwistrellu gwenwyn a chemegau sy'n troi'r ysglyfaeth yn hylif. Byddant yn bwyta adar, llygod a llyffaint fel cawl!



**LLOFRUDDION Y DŴR**
**Morfilod**
Bydd y rhain yn hela mewn paciau. Byddant yn gyrru arwyddion sain i ddarganfod eu hysglyfaeth o dan y dŵr ac yna'n cylchu'r ysglyfaeth.

**Siarcod gwyn**
Gallant nofio ar gyflymder o 25mya ac maent yn defnyddio'r synnwyr o weld ac arogli i hela.

**Octopws**.
Mae gan octopws waed glas a thair calon ac mae'n gallu newid ei liw a'i siap.

PEIRIANNAU LLADD